

CHWECH: CANLLAW DEFNYDDWYR

Cychwyn Cyflym Chwe Cam i Gristnogion newydd

Croeso i Ganllaw Defnyddwyr CHWECH.

Mae'ch buddsoddiad wrth fentora Cristion newydd o werth mawr. Byddwch yn eu helpu i gael dechrau da drwy greu sylfeini cadarn yn ogystal â rhoi cyfle iddyn nhw gyfarfod â pherson arall sy'n cerdded gydag Iesu, yn union fel maen nhw'n ei wneud.

Cynlluniwyd CHWECH fel arf sgysiol ddwy ffordd i chi, fel y disgybl, i'w ddefnyddio gyda Cristion newydd, mewn sefyllfa gyhoeddus fel siop goffi.

Mae ynddo chwe sesiwn awr o ofynion sylfaenol bod yn ddisgybl. Mae wedi ei ddylunio i roi digon o ofod i'r Cristion newydd siarad a gofyn cwestiynau yn ystod y 60 munud gyda'ch gilydd gan gynnwys ciwio am goffi!

Mae pob pwnc yn gychwyn cyflym, nid yn astudiaeth Feiblaidd ddofn. Mae'n caniatáu lle ichi ddod â chyfeillgarwch a dealltwriaeth i'r crediniwr newydd, i glywed beth sydd ar ei feddwl ac i'w helpu i ddeall yr hanfodion yn gyflym.

Y gobaith yw, yn ystod y cwrs, y byddwch yn gallu eu cyflwyno i eglwys neu grŵp bach ble, ar ryw adeg, y byddan nhw'n gallu cael mynediad i fod yn ddisgybl llawn neu efallai i fynychu cwrs Alfa

Rydym yn gwybod yn ystod y dyddiau cynnar ei bod yn hanfodol i grediniwr newydd gael cefnogaeth a dealltwriaeth yn gyflym, fel bod ffydd sydd newydd ei ganfod yn gwreiddio. Mae'r cychwyn cyflym hwn wedi'i gynllunio i'w helpu gyda'r camau cyntaf gyda'ch arweiniad chi. Mae cynnwys y pwnc yn fyr i ganiatáu i chi ddadbacio adnodau allweddol a'u hegluro i ddisgybl newydd yn eich geiriau eich hunain, er mwyn adeiladu perthynas a theilwrio'r eglurhad i'r person o'ch blaen.

Bydd CHWECH yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r llyfr Luc - Actau a gynhyrchwyd ar gyfer y genhadaeth. Mae'r ddau lyfryn wedi eu cynllunio i fynd law yn llaw i helpu'r Cristion newydd ar ei gamau cyntaf. Ymgynefinwch â CHWECH ymlaen llaw gan nodi'r tudalennau y gallech fod eu hangen yn Luc - Actau, gan fod gan y testun benodau a rhifau tudalen ond dim adnodau. Mae hyn i'w wneud yn hygyrch ac yn hawdd i'w ddarllen fel y profiad cyntaf o'r Beibl i lawer.

Mae gan bob pwnc yn CHWECH restr **ADNODDAU** ar y gwaelod, i helpu'r disgybl newydd i chwilio'n ddyfnach. Efallai yr hoffech wirio'r rhain eich hun fel y gallwch gymeradwyo unrhyw beth rydych chi'n gredu fyddai'n gweddu iddyn nhw yn benodol.

Mae'r canllaw hwn i'ch helpu i baratoi cyn cyfarfod, fel y byddwch yn gwybod beth yw pwrpas pob sesiwn.

Mae eich mewnbwn i fywyd y disgybl newydd o werth mawr yn y cyfnodau sylfaenol hyn o'i daith newydd gydag Iesu. Diolch i chi am gymryd yr amser i gerdded y camau cynnar gyda nhw.

CYNGOR: Peidiwch â chredu bod yn rhaid i chi siarad am yr awr gyfan! Defnyddiwch CHWECH fel arf i godi sgwrs gyda'r disgybl, i adael iddo ef neu hi siarad a gofyn cwestiynau i chi. Eich rhan chi yw dod â chynhesrwydd a sicrwydd i'r cyfarfod ac egluro'n syml yr adnodau allweddol a'r hanfodion o'ch profiad chi.

Rhai cyngorion cyffredinol wrth ddefnyddio CHWECH

- Amcan y cwrs bod yn ddisgybl hwn yw helpu'r Cristion newydd i:
 1. ddeall yr efengyl a beth wnaeth Iesu drosto
 2. deall pwy yw Iesu mewn gwirionedd
 3. dechrau gweddïo a darllen y Beibl drostyn eu hunain
 4. ddod yn rhan o eglwys leol yn gyflym
 5. ddechrau dweud wrth eraill am Iesu a beth ddigwyddodd iddyn nhw

Defnyddiwch CHWECH i wneud eich amser gyda'ch gilydd yn sgwrs am ddilyn Iesu yn hytrach nag astudiaeth Feiblaidd neu fonolog un ochrog.

- Cadwch gwestiynau'n sgysiol yn hytrach nag edrych am ateb cywir neu anghywir. Osgowch gywiro'r unigolyn yn hytrach arweiniwch nhw at y gwirionedd.
- Defnyddiwch y cwestiynau ar ddechrau bob pwnc fel awgrym i ddechrau'r sgwrs yn hytrach na rhestr mae'n rhaid mynd trwyddi.
- Darllenwch y pwnc cyn i chi gyfarfod a byddwch yn barod i egluro yn eich geiriau eich hun beth ydi ystyr yr adnodau o'r Beibl.
- Anogwch y Cristion newydd i ddarllen y llyfr Luc - Actau. Yn ystod eich sesiwn holwch os oes ganddynt unrhyw gwestiynau yn codi o unrhyw beth y buont yn ei ddarllen o Luc - Actau.
- Anogwch y Cristion newydd i ddefnyddio'r dolenni adnoddau ychwanegol.

Rhai cynghorion cyffredinol wrth ofalu am Gristion newydd

- Ymlaciwch ,a byddwch yn hyderus a chyfeillgar.
- Byddwch yn barod i brynu coffi! Byddwch yn garedig a chalon agored.
- Byddwch yn ymwybodol er eu bod wedi gweddïo gweddi iachawdwriaeth ar y stryd, efallai nad ydynt eto'n deall ei hystyr; efallai nad ydynt yn ei chredu'n llawn eto. Felly cymerwch amser i ganfod, drwy sgwrsio, ble maent arni, yn arbennig yn y cyfarfod cyntaf.
- Efallai fod gan y crediniwr newydd heriau yn ei ffordd o fyw yn y cyfnod cynnar, felly osgowch farnu. Gall gymryd amser i newid, a hwn yw gwaith yr Ysbryd Glân
- Ceisiwch rwystro'r Cristion newydd rhag teimlo fod dilyn Iesu yn rhestr hir o 'bethau i'w gwneud' sy'n rhy anodd. Yn hytrach, helpwch nhw i ganfod Iesu'r person a phopeth a wnaeth drostynt.
- Byddwch yn ofalus o ddefnyddio iaith fel 'rhaid', a 'dylai'. Gallai'r rhain gael eu clywed fel geiriau 'cyfreithiol' yn hytrach na geiriau 'gras'. Er enghraifft yn lle dweud, 'Rhaid i chi weddïo' a 'Dylech ddarllen y Beibl', dangoswch iddynt bwrpas hanfodol y Beibl fel ffordd mae Duw eisïau siarad â nhw, a rhannwch rym gweddi a atebwyd o'ch profiad eich hun. Helpwch nhw i ganfod fod dilyn Iesu'n berthynas, a bod gweddi a darllen y Beibl yn datblygu a dyfnhau'r berthynas, yn hytrach na bod yn ymarfer neu'n ddyletswydd.
- Mae profiad cynnar Cristion newydd o fod yn ddisgybl yn aml yn gosod y naws i gerddediad y Cristion, felly gadewch iddo gael ei lenwi â gras. Mae angen i ni osgoi cyfathrebu'r ffydd Gristnogol fel cyfraith drom. Yn hytrach, bydded iddyn nhw fod yn ymwybodol o ras ac awdurdod yr Ysbryd Glân yn eu bywyd i gerdded gydag Iesu. Mae llawer o Gristnogion wedi'u llethu gan euogrwydd neu deimlad o beidio â bod yn ddigon da; does dim rhaid i'r don newydd hon o Gristnogion deimlo felly. Gadewch iddyn nhw gael dechrau gwych, gan wybod eu bod yn cael eu caru a chael maddeuant a bod ganddynt daith o'u blaen ym mwriadau Duw.
- Pan fyddwch yn dysgu crediniwr newydd sbon i fod yn ddisgybl, gall rannu rhai o'ch profiadau fod o gymorth. Serch hynny, byddwch yn ofalus rhag i hyn fynd yn arena i chi rannu eich siom o'r gorffennol ynglŷn â'r eglwys neu â'ch gilydd, gan y gall wanhau sylfaen y crediniwr. Gadewch i ni fod yn aeddfed wrth i ni ddod â llaeth ysbrydol pur i Gristnogion newydd anedig rydym yn eu helpu. (1 Pedr 2:2).
- Cyn eich cyfarfodydd gweddi'wch dros y Cristion newydd a'ch amser gyda'ch gilydd. Byddwch yn sensitif i'r hyn mae Duw yn ei ddweud wrthy'ch, y tu hwnt i gynnwys y llyfryn.

SESIWN 1: Fy Nhaith Newydd

Pwrpas: i helpu'r Cristion newydd i ddeall:

- yr Efengyl
- beth mae eu penderfyniad i weddio'r weddi ar y stryd yn ei olygu yn eu bywyd

Yn ystod y genhadaeth, bydd pobl yn cael gwahoddiad i weddio gweddi iachawdwriaeth ar y stryd. Bydd rhai'n deall yn iawn beth maent wedi ei wneud yn ystod y foment honno a'i oblygiadau i'w bywyd ond ni fydd eraill yn deall.

Y cyfarfod cyntaf hwn yw'r cyfle iddyn nhw gyfarfod ag wyneb cyfeillgar – rhywun all eu helpu i ddeall beth maent wedi ei wneud a beth sy'n dilyn nesaf.

Bydd rhai eisoes yn hyderus iawn am yr hyn maent wedi ei wneud; ond efallai bod eraill angen sicrwydd, neu hyd yn oed angen ailddatgan eu hymrwymiad.

○ Sgwrs

Dechrau gyda'r cwestiynau:

1. Beth sydd newydd ddigwydd?

Gadewch i'r unigolyn siarad am yr hyn maent yn gredu ddigwyddodd. Anogwch nhw i ddweud eu stori am eu cyfarfod ar y stryd. Gallwch ddweud o hyn ble maent wedi cyrraedd.

2. Beth yw'r cam nesaf?

Dim ond dechrau oedd gweddio'r weddi. Nawr mae taith o'u blaen – dod i adnabod Iesu, pwy yw ef, beth a wnaeth drostynt a sut mae hyn yn effeithio ar eu dyfodol, yn ogystal â sut i gyfathrebu â Duw ac ef gyda ni! Dyma bwrpas cyfarfod dros y bum wythnos nesaf.

○ Yr Efengyl

Dadbaciwch yr efengyl gyda nhw. Eglurwch yr adnod enwog hon o Ioan. Eglurwch gariad Duw ac aberth Iesu.

'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio a mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol (Ioan 3:16).

○ **Bywyd newydd**

Anogwch nhw gyda'r trawsnewid a ddigwyddodd pan wnaethant weddio i ddilyn Iesu, ac wedyn y newidiadau eraill y gallan nhw eu hwynebu yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

Daeth Iesu i'w bywyd a daw â grym i wneud popeth yn newydd. Mae hyn drwy ei rym ef, nid ein hunangymorth ni.

Darllenwch hwn gyda'ch gilydd ac eglurwch yr adnod:

'Felly os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma.' (2 Corinthiaid 5:17).

○ **Maddeuant**

Mae derbyn maddeuant yn gam cynnar pwysig i Gristion newydd. Wrth sgwrsio gofynnwch iddyn nhw am hyn..

Sicrhewch nhw fod Iesu yn maddau ein gorffennol i gyd. Bu farw ar y groes am bopeth wnaethom ni o'i le. Pan ofynnwn iddo am faddeuant, mae'n maddau llwyr i ni.

Dadbaciwch yr adnod hon i'w sicrhau o faddeuant pan fyddwn yn cyffesu'n pechodau i Dduw:

'I roi i'w bobl wybodaeth am waredigaeth trwy faddeuant pechodau. Hyn yw trugaredd calon ein Duw' (Luc 1:77–78).

○ **Yr Ysbryd Glân**

Mae'n bwysig i grediniwr newydd i ddeall fod ei fywyd newydd yn gyfarfod ysbrydol â Duw. Pan wnaeth weddio, mae'r Beibl yn dysgu eu bod wedi eu geni eto (drwy'r Ysbryd) a dod yn fyw i Dduw drwy ei Ysbryd Glân. Felly nid yw ein taith ffydd newydd yn ymdrech gennym ni ond mae'n cael ei byw gyda chymorth yr Ysbryd Glân a anfonwyd gan Iesu. Ef yw rhodd Duw i'n galluogi i fyw bywyd Cristnogol.

Mae'r Ysbryd Glân nawr yn byw ynoch, i'ch helpu ar eich taith newydd o ddod i adnabod Duw, sy'n eich caru ac sydd â chynllun ar gyfer eich bywyd.

'Er maddeuant eich pechodau ac fe dderbyniwch yr Ysbryd Glân yn rhodd.' (Actau 2:38).

Gorffennwch y sesiwn ar nodyn cadarnhaol: mae Duw yn eich caru ac mae ganddo gynllun ar gyfer eich bywyd.

Gellir dweud y weddi gyda'ch gilydd neu gallent ei dweud nes ymlaen ar eu pen eu hunain, yn dibynnu ar eich lleoliad. Os ydych mewn siop goffi, bydd gofyn i chi ei wneud yn gwrtais a gyda doethineb, i beidio â gwneud i'r crediniwr newydd deimlo'n anghyfforddus ond i'w galonogi. Er enghraifft gallech awgrymu gweddïo gyda'r llygaid ar agor os yw hynny'n gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy cysurus.

Pwrpas y weddi yw rhoi sicrwydd am yr hyn mae Iesu wedi ei wneud drostynt, ac i fynegi ymroddiad eu hewyllys i ddilyn Iesu.

o **Gweddïo**

Diolch i ti, Iesu am ddod i'm bywyd. Diolch am faddau fy mhechodau i gyd. Rydw i'n croesawu dy rym i'm bywyd ar gyfer dechrau newydd ffres. Rydw i'n dewis dy ddilyn Di bob dydd. Helpa fi i'th adnabod yn well. Amen

o **Adnoddau**

- Sut allwch chi adnabod Duw yn bersonol? (PDF)
newwinecymru.co.uk/know-God-personally
- uk.alpha.org/wales

SESIWN 2: Pwy yw Iesu?

Pwrpas: i ddod â deall clir o bwy yw Iesu:

- Mab Duw; Duw fel dyn; Arglwydd a Gwardwr.
- Mae Iesu yn Dduw. Ef yw'r ffordd at Dduw – nid yn unig yn athro moesol da, yn broffwyd neu'n un o lawer o ddewisiadau ysbrydol eraill.
- Mae'n berson go iawn, wedi'i angori mewn hanes, a gerddodd ar y ddaear hon.
- Mae Iesu yn rhywun i'w ddilyn ac ymddiried eich holl fywyd iddo.

○ Sgwrs

Gofynnwch y cwestiwn i'ch helpu i ganfod beth mae'r Cristion newydd yn ei wybod neu'n feddwl am bwy yw Iesu: 'Pe bai rhywun yn gofyn i chi pwy yw Iesu beth fyddech chi'n ei ddweud?'

Roedd Iesu yn berson hanesyddol, real fu'n byw yn ystod y ganrif gyntaf ym Mhalestina pan oedd y Rhufeiniaid wedi meddiannu Israel.

Datgelodd Adroddiad *The Talking Jesus* Evangelical Alliance/Barna fod 26% o bobl oed 18-34 yn credu fod Iesu'n gymeriad mytholegol neu ffug, fel y mae 23% o'r boblogaeth yn gyffredinol yn ei wneud. Felly mae'n bwysig i ddangos bod Iesu yn berson go iawn wedi ei angori mewn hanes. Mae dechrau Efengyl Luc yn wych am egluro hyn, gan ei fod yn gasgliad o adroddiadau llygaid dystion.

- Mae'n fyw heddiw.
- Mae'n Fab Duw, a oedd yma ar ddechrau popeth gyda Duw'r Tad a'r Ysbryd Glân.
- Dwedodd Duw, 'Hwn yw fy Mab, yr Etholedig; gwrandewch arno!' (Luc 9:35)

○ Yr Efengyl

Eglurwch neges yr efengyl eto, a beth mae Iesu wedi ei wneud.

Pan fu farw Iesu ar y groes fel dyn dibechod, ac atgyfodi dri diwrnod wedyn, fe newidiodd bopeth. Agorodd y drws i ni gael perthynas â Duw.

Helpwch i greu darlun o Iesu fel dyn go iawn a sut mae'n dangos i ni sut un yw Duw.

- Roedd gan Iesu ffrindiau, roedd yn siarad, yn cerdded ac yn bwyta gyda hwy.
- Dysgodd y ffordd i fyw.
- Iachodd y cleifion ble bynnag yr ai.

Defnyddiwch yr awgrymiadau i egluro pwy yw Iesu, i helpu'r Cristion newydd i ddod i berthynas ag Iesu pan fydd yn gweddio.

○ **Dod i'w nabod**

Anogwch y Cristion newydd i ddarllen Luc - Actau o ddifrif. Mae wedi ei gynllunio heb adnodau, i'w wneud yn hawdd darllen talpiau mawr ar y pryd. Os yw darllen yn anodd iddo ef neu iddi hi, anogwch nhw i ddefnyddio Beibl sain ar-lein i ddechrau.

Anogwch nhw gyda'r sicrwydd yma.

- 'Ni'th adawaf fyth, ac ni chefnaf arnat ddim.' (Hebreaid 13:5).
- 'ac yn awr, yr wyf gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser' (Matthew 28:20).

Mae bod yn Gristion yn golygu byw bywyd gydag Iesu nawr. Mae ef gyda chi bob dydd ac mae gennych ddyfodol gydag ef yn y nefoedd ac i dragwyddoldeb cyfan.

○ **Gweddi**

Pwrpas gweddïau yw eu helpu i gael gafael yn y ffaith fod Iesu, Arglwydd y bydysawd i gyd, yn fawr, yn aruthrol ac yn bwerus ac eto mae'n eu caru ac mae eisiau perthynas â nhw.

○ **Adnoddau**

Gallech eu hannog i brynu copi o *Every Day with Jesus for New Christians* – mae dewis ar wefan CWR. Gallent ddechrau ei ddefnyddio bob dydd yn hytrach nag aros am eu sesiynau gyda chi.

- uk.alpha.org/wales
- *Every Day with Jesus for new Christians*: www.cwr.org.uk/store/c-224-for-new-christians.aspx
- <https://spoken-truth.com/emerge>

SESIWN 3: Gweddï

Pwrpas: i gael y Cristion newydd i weddïo! Bydd y cwestiynau yn eich helpu i ganfod ble maent arni a beth yw eu hagwedd tuag at weddi.

- Ydych chi wedi gweddïo erioed?
- Beth yw eich profiad o weddi?

Yr amcan yw annog y Cristion newydd i sylweddoli nad oes amser, lle na phwnc y tu allan i gyraeddiadau Duw. Mae'n gweld popeth, mae'n ein caru, ac mae'n ein clywed.

o Sgwrs

Siarad â Duw yw gweddïo. Mae'n gyflym ac yn barod i'n clywed ac mae'n fodlon pan fyddwn yn ymestyn ato mewn gweddï. Gallwn siarad ag ef yn uchel, dan ein gwynt neu yn ein pennau. Ble bynnag y byddwn, mae'n ein clywed ni, ac mae mor real â siarad â ffrind.

Rydym yn anelu at ddangos fod gweddï yn fwy na rhestr o geisiadau; mae'n gyfle i wybod am bresenoldeb Duw, yn helpu'r disgyblion i fod yn ymwybodol o gariad, heddwch a sicrwydd Duw yn eu bywydau. Bydd gweddï yn eu helpu i fod yn agored i gyfarfodydd ysbrydol personol â Duw.

Wrth i ni dawelu ein meddwl i ganolbwyntio arno ef, gallwn ddechrau teimlo ei bresenoldeb, ei gariad tuag atom a'i dangnefedd yn ein hamgylchynu.

- Byddwch yn ofalus wrth ddysgu am weddi. Er, fel Cristnogion aeddfed gwyddom y gall gweddï fod yn sgwrs ddwy ffordd ble gallwn ni hefyd glywed Duw; gadewch i'r Cristion newydd ganfod hynny drosto/drosti ei hunan wrth iddynt ddod i'w bresenoldeb Ef. Fel arall gallant gael eu digalonni os na fyddant yn 'clywed yn ôl'. Rydym i gyd yn gwybod sut y byddwn yn teimlo pan fyddwn yn dyheu'n daer am glywed llais Duw a dydi o ddim yn hawdd i'w glywed.

o Yr Efengyl

Darllenwch ddysgeidiaeth Iesu gyda'ch gilydd yn eich Luc – Actau. Anogwch nhw i wybod bod gan Iesu agwedd 'gofyn' !

Mae Iesu'n ein dysgu sut i weddïo yn Luc 11:1–13:

‘Ac yr wyf fi’ n dweud wrthy ch: gofynnwch, ac fe roddir i chwi; ceisiwch, ac fe gewch, curwch, ac fe agorir i chwi.’ (adnod 9).

Dadbaciwch yr adnod hon gyda nhw, i ddangos eto sut y gallwn ddod yn agos at Dduw, ei holi, rhannu’n meddyliau, pryderon, gobeithion a’n breuddwydion gydag Ef. Unwaith eto mae’n annog gwybodaeth ysbrydol o dangnefedd.

Mae llawer o bobl yn dioddef o bryder. Mae’r adnod hon yn llawer o help:

‘Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneier eich deisyfiadau, yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch. A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a’ch meddyliau yng Nghrist Iesu,’ (Philipiaid 4:6–7).

○ Rhannu

Siaradwch gyda nhw am atebion i weddïau rydych chi’n gwybod amdany n nhw. Amcanwch at eu cael wedi eu cynhyrfu am bosibiliadau gweddi – fod Duw’r creawdwr aruthrol yn aros i glywed ganddyn nhw a’i fod Ef am fod yn rhan o’n bywydau ni.

Gallwch siarad â Duw am unrhyw beth – sut rydych chi’n teimlo, beth sy’n digwydd yn eich bywyd, am deulu, gwaith a ffrindiau. Mae ganddo ddiddordeb ac mae am fod yn rhan o’ch bywyd chi. Mae gweddi yn real ac mae canlyniadau iddi.

○ Gweddi

Diolch i ti, Iesu, dy fod yn fy nghlywed pan fyddaf yn gweddïo arnat. ...
Dywedwch wrtho beth sydd ar eich meddwl.

Rydych yn annhebygol o gael sesiwn weddïo yn y siop goffi ond anogwch nhw i ddechrau gwneud gweddi’n rhan o’u bywyd newydd.

○ Adnoddau

- uk.alpha.org/wales
- www.facebook.com/247pray

SESIWN 4: Y Neges

Pwrpas: i gael y Cristion newydd i ddarllen y Beibl.

Anogwch ef neu hi i ddechrau darllen drwy'r cyfan o Luc - Actau. Wrth ddarllen Luc, bydd yn dod ar draws Iesu, yn dod i'w adnabod yn well a dysgu am ei fywyd. Wrth iddynt symud ymlaen i'r Actau, byddant yn gweld yr holl ddigwyddiadau anhygoel ym mywydau'r credinwyr cynnar a sut y lledaenodd yr Efengyl.

Ein nod yw eu hannog i gael Beibl llawn cyn gynted ag y bo modd. Mae Luc - Actau yn gam cyntaf llai brawychus. Os yw darllen yn her iddyn nhw, mae fersiynau clywedol ar gael am ddim ar Bible Gateway neu mae fersiynau sain ar gael gan youversion.

Rydym am iddynt ddeall nad yw'r Beibl yn destun ysgrifenedig yn unig. Mae'n fyw – yn air Duw ac un o brif ddulliau Duw o gyfathrebu â ni.

o Sgwrs

Peidiwch â chael eich llethu gan gwestiynau: eu bwriad yw dechrau'r sgwrs.

- Ydych chi wedi darllen y Beibl erioed?
- Hoffech chi help i ddewis un? Ceisiwch helpu'r Cristion newydd i ddewis cyfieithiad o'r Beibl sy'n addas ar eu cyfer, fersiwn sy'n hawdd ei ddarllen ac yn glir.

o Yr Efengyl

Eglurwch y stori gyfarwydd am yr adeiladwyr doeth a ffôl (Luc 6: 47-49). Mae'n dangos sut mae darllen am ddysgeidiaeth Iesu am sut i fyw bywyd ac yna ei roi ar waith yn creu sylfaen gadarn. Defnyddiwch enghreifftiau eraill, fel 'golau i'n llwybr'. Cofiwch siarad am sut mae Iesu ynom ni trwy ei Ysbryd i'n helpu ni i roi ei ddysgeidiaeth ar waith yn ymarferol yn ein bywydau

- Meddai'r Iesu, 'Pob un sy'n dod ataf ac yn gwrandao ar fy ngeiriau ac yn eu gwneud, dangosaf i chwi i bwy mae'n debyg: y mae'n debyg i ddyn a adeiladodd ei dŷ a chloddio'n ddwfn a gosod sylfaen ar y graig' (Luc 6:47–48).
- Meddai'r Arglwydd, 'Hyfforddof di a'th ddysgu yn y ffordd y gymeri; fe gadwaf fy ngolwg arnat' (Salm 32:8).

Siaradwch am sut mae Duw wedi cyfeirio eich bywyd drwy'r Beibl.
Rhannwch sut mae'n air byw; yn ogystal â chynnwys am bobl a lleoedd a gwerthoedd, daw'n fyw wrth i ni ei ddarllen.

○ **Gweddïo**

Duw, diolch am dy neges, y Beibl. Wrth i mi ei ddarllen, helpa fi i dy weld ar bob tudalen.

○ **Adnoddau**

Anogwch y Cristion newydd i gael yr ap Beibl YouVersion ar-lein ar eu ffôn - efallai y gallwch wneud hyn gydag o neu hi yn y fan a'r lle yn y siop goffi.

- www.biblesociety.org.uk/new-to-the-bible
- uk.alpha.org/wales
- www.youversion.com (online Bible)

SESIWN 5: Cymuned Newydd

Pwrpas: i gael y Cristion newydd yn rhan o eglwys leol cyn gynted ag y bo modd, deall fod bod yn rhan o eglwys leol yn hanfodol i'w daith Gristnogol.

Bydd gan bobl brofiadau amrywiol o eglwys - efallai mai dim ond priodas neu angladd yn unig - neu dim profiad o gwbl. Dyma'ch cyfle i'w helpu i ddeall eglwys fel cymuned o bobl, o ddilynwyr Iesu.

o Sgwrs

Defnyddiwch CHWECH fel cyfle i siarad am bwrpas eglwys: beth ydyw, a pham fod bod yn rhan o eglwys yn hanfodol.

Defnyddiwch Luc – Actau i edrych ar yr eglwys gyntaf, gan dynnu sylw at yr ymdeimlad o gymuned a pherthyn.

- Yr oeddent yn dyfalbarhau yn nysgeidiaeth yr apostolion.... ac yn y gymdeithas yn y torri bara ac yn y gweddïau. Daeth ofn ar bob enaid; yr oedd rhyfeddodau ac arwyddion lawer yn cael eu gwneud drwy'r apostolion. Yr oedd yr holl gredinwyr ynghyd yn dal pob peth yn gyffredin. byddent yn gwerthu eu heiddo a'u meddiannau ac yn eu rhannu rhwng pawb...A chan ddyfalbarhau beunydd yn unfryd yn y deml, a thorri bara yn eu tai, yr oeddent yn cydfwyta mewn llawenydd a symledd calon, dan foli Duw a chael ewyllys da'r holl bobl. (Actau 2:42–47).
- Felly, nid estroniaid a dieithriaid ydych mwyach, ond cyd-ddinasyddion â'r saint ag aelodau o deulu Duw. (Effesiaid 2:19).

o Cychwyn ar garlam

'Ydych chi eisiau help i gael hyd i eglwys leol i fod yn rhan ohoni?'

Gwahoddwch y Cristion newydd i'ch eglwys neu ei gynorthwyo i ddod o hyd i eglwys sy'n lleol iddo ef nei hi. Edrychwch ar wefan NWC gyda'ch gilydd i ddod o hyd i eglwys.

o Adnoddau

- newwinecymru.co.uk/find-local-church
- uk.alpha.org/wales

SESIWN 6: Dwedwch wrth eich cyfeillion

Pwrpas: i annog y Cristion newydd i fod yn agored ac yn actif wrth rannu ei ffydd. Pan ddwedwn wrth eraill am Iesu, mae'n un o brif ddulliau Duw o gyrraedd pobl gyda'i newyddion gwych am gariad a maddeuant.

o Sgwrs

Defnyddiwch y cwestiwn 'Ydych chi wedi dweud wrth eich ffrindiau neu'ch teulu eto?' i ddarganfod sut maen nhw'n dod ymlaen wrth rannu gartref ac yn y gwaith am eu ffydd newydd.

Sgwrsiwch â'ch gilydd am genhadaeth Iesu a'r rhan rydym ni'n chwarae ynddo. Mae'r newyddion da am yr hyn a wnaeth i ni i gael ei rannu - mae ei gariad at bobl mor wych, mae ef am i bawb wybod. Ystyrir ei bod yn fraint i rannu neges Duw, ac mae'n ffordd y gallwn ni wasanaethu Iesu ac eraill.

o Yr Efengyl

Meddai Iesu, 'Ewch gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân' (Matthew 28:19).

Helpwch y Cristion newydd i ddod o hyd i ddulliau priodol o rannu ei newyddion cyffrous.

Eich byd yw eich cyfeillion, eich teulu a'ch cymdogion. Rhannwch gyda nhw beth sydd wedi digwydd yn eich bywyd, a sut rydych wedi canfod ffydd yn Iesu. Dyma sut y gallant hwy ofyn cwestiynau a'i gyfarfod hefyd.

Gan ddefnyddio dameg gyfarwydd yr heuwr, dangoswch mai ein rôl ni yw gwasgaru'r had, i rannu ein stori. Gan ddefnyddio Luc - Actau, edrychwch ar Luc 8: 4-15 gyda'i gilydd.

o Cychwyn cyflym

Efallai yr hoffech awgrymu bod y Cristion newydd yn defnyddio'r 'Run Alpha' newydd. Gellir dangos y fideos byr ar liniadur mewn unrhyw leoliad

o Adnoddau

- www.alpha.org/runalpha
- uk.alpha.org/wales

Rydych wedi cyrraedd Wythnos 6. Diolch am eich buddsoddiad ym mywyd crediniwr newydd. Cynorthwywch ef neu hi i gartrefu mewn eglwys leol lle gall wasanaethu a thyfu.